**Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun 5 Gorffennaf 2021 arlein, trwy zoom am 8.00 o'r gloch**
***Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday, 5 July 2021, online through Zoom at 8.00pm***

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**Presennol/*Present***
Cyng Daniel Thomas (Gadair/*Chair*), Gwenfair Owen, Gwilym Evans, Eirian Jones, Gerwyn Ebenezer, John Evans, Emyr Jones, Myrddin James a Cyng/*Cllr* Rhodri Evans

**Ymddiheuriadau/*Apologies*** – Cyng/*Cllr* Paul Rooke

**Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest*** – Neb / *No one*

**Adroddiad yr Heddlu / *Police Report***
Yn absenoldeb yr heddlu, darllenwyd adroddiad yr heddlu.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of previous meeting***
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Gwenfair Owen ac eiliwyd gan Cyng Myrddin James.

**Materion yn codi o'r cofnodion/*Matters arising from minutes***

- Gwaith wedi'u wneud o tarmacio'r palmant oddi amgylch y cof golofn a'r goeden ywen ar cylchfan Llangeitho, dal yn disgwyl i Crwbin Quarries i ddychwelyd i orffen y gwaith ac i dderbyn adroddiad oddi wrth Gareth Lewis o'r gwaith a gall gael ei wneud ar y goeden ywen.
- Crac yn y bont Capel Betws Leuce wedi'u drwsio.

**Gohebiaeth/*Correspondence***

- Posteri Ben Lake AS/MP ac Elin Jones AS/MS wedi'u dderbyn i'w harddangos.
- Cais wedi'u dderbyn oddi wrth Dafydd Iolo a Mick Tordoff i dderbyn caniatad i wneud copi digidol o bob tudalen o bob Llyfr Cofnodion Cyngor Plwyf o'r cofnod cyntaf un ym 1894 i Ragfyr 31ain 1989, cytunwyd i'r cais ond soniwyd gan fod y deunydd sydd ei hangen arnynt wedi'u drosglwyddo i'r Archifdy yn Aberystwyth a bod ganddynt rheolau pendant i'w ddilyn ynghyd a rheolau Covid-19. Soniwyd nad oedd yr Archifdy wedi ail agor eto ond bod angen dilyn y cyfarwyddiadau pendant pan fydd yr adeilad wedi'u ail agor i'r cyhoedd.

**Cyfrifon/*Accounts***

- Zoom £14.39 (24.05.21)
- Cyflog y Clerc £111.67 (Mai)
- Angen i'r clerc gylchredeg y posteri yn gwahodd ceisiadau am gymorth ariannol i'r rhai sydd yn arfer gwneud cais.

Cytunwyd i'w dalu yn unfrydol.

**Cyngor Sir Ceredigion *County Council***
Dim i'w gofnodi.

**Un Llais Cymru/*One Voice Wales***
Dim i'w gofnodi.

**Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business***

- Profa yn llanw nifer o'r drains oddi amgylch y gymuned, angen torri'r borfa ar y cloddiau.
- Cynghorydd Rhodri Evans i ddilyn fynny am gael yr 'anti-skid' ar rhiw Gaerlwyd.
- Soniwyd fod yna broblemau mawr wedi bod yn ddiweddar efo'r glaw trwm yn llifo lawr i'r pentref a methu mynd mewn i'r drain gan bod y drains yn llawn dop, angen i Cyng Rhodri Evans ddilyn y broblem yma lan efo'r Cyngor Sir.
- Cynhelir nifer o gyfarfodydd dros y mis efo aelodau'r Cyngor Sir am y broblem o gyflymdra traffig sy'n dod i fewn i pentef Llangeitho, soniwyd bod yna arwyddion yn mynd i gael ei roi ar y llawr i ddweud wrth y traffig i arafu i fynd mewn i'r pentref.
- Cyng Rhodri i edrych mewn i'r posibilrwydd o gael blodau wedi'u blannu oddi amgylch y gymuned.
- Soniwyd bod tipyn o chwyn oddi amgylch pentref Llangeitho.
- Soniwyd am y posibilrwydd o gynnal cystadleuaeth addurno tai, Cadeirydd i edrych fewn i'r pwnc erbyn y cyfarfod nesaf.
- Sioe Llangeitho dal heb benderfynu odi'r Sioe blynyddol yn mynd yn ei flaen am 2021.

**Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/*Date & location of next meeting***

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar nos Lun 5ed o Orffennaf 2021 am 8 o'r gloch trwy Zoom.